

Cyngor Sir Ynys Môn

Pwyllgor:	Cyngor Llawn
Dyddiad:	24 Medi 2026
Pwnc:	Dileu Elw o Ofal Plant sy'n Derbyn Gofal – Cynlluniau Digonolrwydd
Swyddog Cyfrifol:	Fôn Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth Plant a Theuluoedd
Pwrpas yr Adroddiad:	
Awdur:	Emma Edwards, Rheolwr Busnes

1. Cefndir

Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru 2025 yn diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 trwy gyflwyno adran 75A newydd a'i gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Lleol gynhyrchu Cynllun Digonolrwydd Blynnyddol.

Rhennir yr adroddiad hwn gydag aelodau etholedig er mwyn rhoi gwybod iddynt am gyfrifoldeb y Cyngor a darparu sicrwydd fod Cynllun Digonolrwydd blynnyddol wrthi'n cael ei lunio a'n bod yn hyderus y caiff y Cynllun ei gwblhau yn unol ag amserlen Llywodraeth Cymru.

2. Pwyntiau allweddol / crynodeb

Dylai ein Cynllun Digonolrwydd Blynnyddol:

- hyrwyddo dull cydlynol a chynlluniedig i sicrhau llety nid er elw digonol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
- sicrhau fod penderfyniadau'r awdurdod lleol yn seiliedig ar dystiolaeth o'r angen a'r galw cyfredol a rhagolwg o'r angen a'r galw.
- Cynorthwyo i ail-gydbwysu'r ddarpariaeth gofal a chymorth yn unol â chyfeiriad polisi cenedlaethol.
- Ddarparu tryloywder ac atebolrwydd i blant, teuluoedd, darparwyr, aelodau etholedig a rhanddeiliaid allweddol eraill trwy gyhoeddi'r cynllun ac adrodd arno yn flynyddol.

Bydd y cynllun yn:

- Bodloni gofynion statudol yr adrannau o Ddeddf 2025 a roddwyd ar waith a'r rheoliadau ategol yn ymwneud â chynlluniau digonolrwydd.

- Darparu llinell sylfaen eglur o'r angen, y galw a'r ddarpariaeth bresennol a rhagolygon, sydd wedi'i ategu gan y dystiolaeth sydd ar gael.
- Dangos dealltwriaeth a mynegiant o bwysau a risgiau mewn perthynas â digonolrwydd, gan gynnwys gweithlu, addysg, iechyd a dibyniaeth ar y farchnad.
- Nodi cyfeiriad credadwy ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd digonolrwydd dros amser, hyd yn oed os rhagwelir y bydd y canlyniadau'n cael eu cyflawni tu hwnt i'r flwyddyn gyntaf, gan ystyried amgylchiadau lleol perthnasol.
- Bod yn dryloyw ynglŷn â rhagdybiaethau, bylchau mewn data a chyfyngiadau data, yn hytrach na darparu sicrwydd na ellir ei warantu; ac
- Adlewyrchu dull ailadroddol, gan gydnabod y bydd dysgu o gynlluniau cynnar yn dylanwadu ar welliannau yn y dyfodol.
- Cael ei ategu gan dystiolaeth gadarn, gymesur a thryloyw, gan alluogi dealltwriaeth leol a chenedlaethol o'r angen presennol, y pwysau a'r cyfeiriad yn y dyfodol.
- Defnyddio tystiolaeth i gefnogi penderfyniadau strategol ac atebolrwydd, yn hytrach na chreu beichiau newydd ychwanegol yn gysylltiedig â data.
- Cynnwys setiau data a setiau data craidd cyfredol
- Cynnwys rhagolygon a modelu galw
- Bod yn dryloyw ynglŷn â bylchau mewn data a chyfyngiadau data
- Cynnwys gwybodaeth berthnasol ynglŷn ag ansawdd a Chanlyniadau

Mae'n rhaid i'r Cynllun:

- Gael ei gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
- Cynnwys datganiad yn nodi p'un a yw'r awdurdod o'r farn ei fod yn gallu cyflawni ei ddyletswydd digonolrwydd ar gyfer y flwyddyn berthnasol
- Cael ei gymeradwyo gan uwch arweinwyr o fewn yr awdurdod lleol ac, o ddewis, gan bartneriaid allweddol, cyn ei gyflwyno i Weinidogion Cymru.

Y Camau Nesaf

- Bydd y Gwasanaeth yn drafftio Cynllun Digonolrwydd Blynnyddol erbyn 1 Rhagfyr 2026, i'w gyflwyno i Weinidogion Llywodraeth Cymru ei ystyried a'i gymeradwyo.
- Bydd y Cynllun terfynol, fydd yn ymgorffori unrhyw adborth gan Weinidogion, yn cael ei gwblhau a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 1 Chwefror 2027.

3. Atodiadau

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2026-07/crynodeb-ymatebion-dyletswydd-cynllun-digonolrwydd-awdurdodau-lleol.pdf>

4. Argymhelliad

Adroddiad er gwybodaeth ac i ddarparu sicrwydd yw hwn.